WORK BASED LEARNING PROGRAMME RHAGLEN DYSGU SEILIEDIG AR WAITH

tilt

Hyfforddiant ieithoedd a chyfieithu
Training in languages & translation

ESF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

Astudiaeth Achos
Catrin Roberts

Mae gan Catrin Roberts ei chwmni cyfieithu ei hun yng Ngogledd Cymru ac mae hi wedi bod yn dilyn cyrsiau Cyfiiethu Ôl-radd TILT yn ddiweddar (2 Fodiwl sy'n 30 Credyd yr un). Dyma hi'n sôn sut mae TILT wedi bod o fudd iddi hi.

A allwch chi roi amlinelliad byr o faes arbenigedd eich cwmni (neu'ch gwaith ar eich liwt eich hun?)

Cofrestrais fy hun yn hunan-gyflogedig, a dechreuais drwy gyfieithu taith gerdded leol gydag elfen hanesyddol ar gyfer ap daearyddol. Ers hynny rydw i wedi cyfieithu sawl taith arall, gan gynnwys teithiau o amgylch Portmeirion, Llanidloes a Nant Gwrtheyrn (ac wedi dysgu llawer am hanes y llefydd yma yr un ffordd!)

Sut berthynas oedd gennych â'r byd dysgu cyn dilyn y cwrs, ac a yw'r berthynas wedi newid wedyn?

Bues i'n astudio tuag at radd BA mewn Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yma ym Mhrifysgol Bangor rhwng 2005-2008, ond ers hynny rhaid cyfaddef nad oeddwn i wedi gwneud unrhyw waith academaidd o gwbl, felly roeddwn i allan o bractis braidd (roedd rhaid i mi atgoffa fy hun sut i ysgrifennu troed-nodiadau!) P'un bynnag, roedd y ffordd y cafodd y cwrs TILT ei gynnal yn helpu i hwyluso'r broses o ddychwelyd i'r byd dysgu. Roedd y tasgau wythnosol yn fy herio, a'r sesiynau bore Sadwrn yn hwylus iawn i rywun yn cyfieithu'n rhan-amser ar fy liwt fy hun.

Pa fudd fyddwch chi neu'ch cwmni yn ei gael o ddilyn y cwrs?

Cyn dilyn y cwrs TILT, doedd gen i ddim cymwysterau ffurfiol yn y maes cyfieithu, ac rydw i'n teimlo bod cwblhau'r cwrs yn fy ngwneud i'n fwy 'credadwy' fel cyfieithydd. Mae'r cwrs hefyd wedi cynyddu fy hyder, ac wedi rhoi'r cyfle i mi roi tro ar gyfieithu pob mathau o wahanol destunau. Cefais hefyd fy nghyflwyno i, a chael cyfle i ddefnyddio, meddalwedd cof cyfieithu 'Cyfieithu Cymru' (a gafodd ei greu yma yng Nghanolfan Bedwyr ym Mangor), rhywbeth nad oeddwn wedi ei wneud o'r blaen.

Sut glywsoch chi am gyrsiau TILT?

Roeddwn i wedi clywed am y prosiect TILT drwy Brifysgol Bangor ac yn gwybod ei fod yn ymwneud ag ieithoedd, ond doeddwn i wedi ymchwilio'n iawn i beth oedd o, na beth oedd yn ei gynnig. Roedd angen i mi fynd ar y wefan ar gyfer gwaith un diwrnod (dwi ddim yn gallu cofio pam!), a des i ar draws y cwrs cyfieithu, oedd yn swnio'n berffaith i mi. Felly cysylltais gyda staff y prosiect y diwrnod hwnnw a gofyn am ragor o wybodaeth a sut i gofrestru.

Pam y bu ichi benderfynu cymryd rhan yn y cynllun?

Roedd gen i ddiddordeb mewn dilyn cwrs a/neu gymhwyster cyfieithu pan wnes i gofrestru'n hunan-gyflogedig. Bues i'n holi Prifysgol Aberystwyth ynglŷn â'r Dystysgrif mewn Cyfieithu, ond yn anffodus nid oeddent yn siwr os oedd y cwrs yn mynd yn ei flaen. Yn eithaf buan ar ôl hynny des i ar draws y cwrs TILT. Roeddwn i'n teimlo bod y cwrs yn berffaith i mi ac yn fwy cyfleus gan na fuasai rhaid i mi deithio i Aberystwyth i fynychu rhai sesiynau. Roedd y cwrs TILT yn cynnig y cyfle i mi weithio ac astudio ar y cyd – bonws oedd y ffaith ei fod wedi ei ariannu'n llawn hefyd!.

WORK BASED LEARNING PROGRAMME RHAGLEN DYSGU SEILIEDIG AR WAITH

tilt

Hyfforddiant ieithoedd a chyfieithu
Training in languages & translation

ESF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

Beth oedd y peth gorau am y cwrs y buoch chi arno?

Cefnogaeth ac arbenigedd y tiwtor, ac aelodau eraill Canolfan Bedwyr. Roedd hi'n braf cael dysgu mewn awyrgylch ble'r oedd cymorth ar gael yn hawdd, a hyblygrwydd ar gael os oedd ei angen arnoch. Weithiau roedd hi'n anodd gweithio'n llawn amser a chwblhau'r tasgau wythnosol (yn ogystal â threfnu priodas a chadw ar ben y gwaith tŷ a thasgau dydd-i-ddydd diflas eraill!), ond roedd staff y prosiect o hyd yn amyneddgar a chefnogol dros ben.

Yn eich barn chi, pa mor bwysig i'r economi yng Nghymru drwyddi draw yw cael cyrsiau wedi'u hariannu'n barod sy'n canolbwyntio ar fusnesau?

Mae cwmnioedd ledled y wlad wedi bod drwy gyfnod ariannol anodd yn ddiweddar, ac mae'n debyg bod ganddyn nhw bethau pwysicach i wario eu pres arno na hyfforddiant. Rydym ni'n lwcus dros ben bod cyrsiau fel hyn, sydd wedi eu hariannu'n llwyr, ar gael wrth garreg ein drws, ac mae'n bwysig gwneud y mwyaf ohonyn nhw tra mae'r cyfle ar gael. Mae cyrsiau fel hyn yn amhrisiadwy..

Pa gyngor fyddai gennych chi i fusnesau neu weithwyr ar eu liwt eu hunain sy'n meddwl dilyn cyrsiau TILT?

Ewch amdani! Mae yna o hyd rhesymau i beidio gwneud rhywbeth; diffyg amser, pwysau gwaith, bywyd teuluol prysur. Ond mae rhaglen TILT yn cynnig cyfle prin i astudio ac ennill cymhwyster drwy weithio o amgylch y 'rhwystrau' hyn, a hynny wedi ei ariannu'n llawn hefyd. Mae'r rhaglen yn hyblyg ac mae digon o gymorth ar gael pan 'rydych chi ei angen o. Buaswn i'n argymell y rhaglen i unrhyw un sy'n cyfieithu ac yn ymddiddori mewn iaith, p'un ai eu bod yn gweithio i gwmni neu ar liwt ei hun

Mae TILT yn rhan o'r Rhaglen Dysgu yn y Gweithle, a ariennir drwy Gronfa Gymdeithasol Cydgyfeiriant Ewrop yr UE drwy Lywodraeth Cymru. Os hoffwch gael mwy o wybodaeth am y cyrsiau eraill a gynigir gan y project , cysylltwch â s.ghazzali@bangor.ac.uk neu ewch ar wefan TILT http://www.tiltcymru.org.uk/wordpress/bangor/